# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 10-02-23

**Presenoldeb: Cadeirydd: Cyng. Dafydd Meurig**
**Is-gadeirydd: Cyng. Menna Jones**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Nia Jeffreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones, Gwynfor Owen, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr June Jones, Ioan Thomas a Rob Triggs

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2022 fel rhai cywir

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TÂL GWEITHLU'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2023/24, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yng nghyfarfod Hydref 11eg 2022, diwygiwyd Polisi Tal 2023/24 i adlewyrchu addasiad yng nghyflogau rhai o Benaethiaid Adran y Cyngor. Roedd yr addasiad yn ymateb i gais penodol gan y Pwyllgor yn Chwefror 2021 i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gyflogau prif swyddogion.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i awgrym bod uwch swyddogion yn derbyn tâl ychwanegol am oriau anghymdeithasol o gymharu â gofalwyr a staff rheng flaen sydd yn derbyn tâl sylfaenol am yr oriau hyn, cadarnhawyd nad oedd uwch swyddogion yn derbyn tâl ychwanegol a bod y Cyngor yn sefyll yn gadarn drwy sicrhau cyfartaledd a thegwch ar draws y gweithlu.

**PENDERFYNWYD**

**Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth yr 2il 2023, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2023/24**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:10